Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 66** **Calan 2024**



'Peidiwch â meddwl am y pethau gynt,
Peidiwch ag aros gyda'r hen hanes.
Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd.
Y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod?
Yn wir, rwy'n gwneud ffordd …'

# Rhag-weld

O gredu'r siarad ymhlith doethion y pentre, roedd cryn dipyn o edrych ymlaen at y cyfarfod oedd i'w gynnal yn y neuadd. Bu'r peiriant heip yn gorweithio drwy gydol yr wythnos. Er mai fel 'Gweni' roedd ei chyfoedion yn ysgol gynradd Blaen-cwm-llaith yn ei hadnabod, roedd yn amlwg bod symud o'r pentref wedi ei galluogi i ddatblygu doniau y tu hwnt i'r cyffredin!

Felly, yn ein pentref bach ni, roedd cryn edrych ymlaen at groesawu'r enwog Dame Gwenhwyfar de Pique, ysbrydegydd, a rhagweledydd enwocaf Ewrop (o gredu'r posteri!). Roedd dawn anhygoel ganddi (yn ôl yr hysbysrwydd!) i ddarogan y dyfodol.

Anghofiwch am Nostradamus. Roedd dawn Dame de Pique yn rhagorach. Roedd ganddi'r gallu i weld tynged y rhai a ddeuai ati am gyfarwyddyd a medrai llawer dystio i'w medrusrwydd (yn ôl pob sôn!). O gredu'r hysbysebion fe ellid tybio na symudai'r sêr, y Cranc na'r Arth, Pleides nac Orion, i'w mannau priodol yn y gofod, heb gyfarwyddyd Dame Gwenhwyfar de Pique.

O leiaf dyna roedd yr hysbysebion yn ei awgrymu!

Bu cryn drafod ymhlith y pentrefwyr pwy fyddai'n mynd i'r cyfarfod. Cytunai rhai mai ofergoel oedd y cyfan, heip gwag, disylwedd, ac na fyddent byth yn mynd ar gyfyl y digwyddiad!

Er hyn, roedd chwilfrydedd bron pawb yn cael ei gosi.

Wrth dalu am eu nwyddau yn siop y pentre, bu rhai'n trafod beth yr hoffent ei ofyn iddi pe deuai'r cyfle i'w rhan. Wrth drin eu gwallt yn M'lady, siop trin gwallt fwyaf ecgsliwsif y fro, bu dyfalu crafog ymhlith y staff pa gyfrinachau fyddai'n cael eu dadlennu pe bai gan eu cwsmeriaid breintiedig y dewrder i geisio'i chyngor!

Er bod y cyfarfod i'w gynnal ar noson ymarfer y côr, daeth yn amlwg bod nifer ohonynt yn magu annwyd, yn colli eu lleisiau, a bod crygni anarferol yn gorymdeithio drwy eu rhengoedd disgybledig. Gohiriwyd cyfarfod Merched y Wawr a'r dosbarth cynganeddu.

Dychmygwch, os fedrwch chi, y siom a ysgubodd drwy'r pentre pan welwyd na allai Dame Gwenhwyfar de Pique gynnal ei chyfarfod wedi'r cyfan, oherwydd bod 'Amgylchiadau na ellid eu rhag-weld' wedi ei goddiweddyd.

Cytunai pawb, fel ei gilydd, na fu bwriad ganddynt erioed i fynd i'r cyfarfod, a bod pethau llawer rheitiach ganddynt i'w wneud y noson honno, ac nad oeddynt am eiliad wedi credu'r hysbysebion am ei dawn. Taerodd nifer o'r côr fod te ysgawen a mêl yn wyrthiol yn ei allu i adfer y rhai cryg o galon!

***

Fel Madame de Pique, ar ddechrau Blwyddyn Newydd, ni ŵyr pyndits a selébs ein gwlad nemor ddim yn fwy na'r gweddill ohonom pan geisiant ddyfalu am ddyddiad yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Pwy a ŵyr pa mor llwyddiannus fydd timau cenedlaethol Cymru? Neu beth a ddigwydd yn Gaza ac yn Wcráin?

***

Cynghorodd Thomas à Kempis (1380–1471), awdur y gyfrol ddylanwadol 'Efelychu Crist' (*De Imitatione Christi*) ei ddarllenwyr i geisio Crist ei hun, uwchlaw popeth. 'Heb y Ffordd,' meddai, 'nid oes taith; heb y Gwirionedd, nid oes adnabyddiaeth; heb Fywyd, nid oes bywyd.'

A chan geisio'r Arglwydd a'i deyrnas cydnabyddwn yn ostyngedig na fedrwn rag-weld mwy na hanner cam o'n blaenau. Gweddïwn eto eleni gydag à Kempis:

> 'Arglwydd os ateli di dy law, nid oes unrhyw ras.
> Os peidi di â'n harwain, nid oes ynom ddoethineb.
> Os nad amddiffynni di ni, nid oes i ni ddewrder.
> Os na chryfhei di ni, y mae ein purdeb yn fregus.
> Os na chedwi di dy wyliadwriaeth sanctaidd drosom,
> ni all ein gwyliadwriaeth ni ein hunain ein gwarchod.
> Ar ein pennau ein hunain suddo a wnawn a threngi;
> pan wyt ti gyda ni, cawn ein dyrchafu, cawn fyw.
> Gwantan ydym ni, ond yr wyt ti'n ein gwneud yn gadarn.
> Llugoer ydym, ond yr wyt ti yn ein tanio.'

I ofal yr Arglwydd grasol, doeth, sanctaidd, gwyliadwrus a bythol fyw hwn y cyflwynwn ein hunain, ein teuluoedd, a'n cynulleidfaoedd ar ddechrau 2024.

*Watcyn James*

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 11 Ionawr | Y grŵp Gwreiddiau'n ailgyfarfod,<br>yn festri'r Garn a thrwy gyfrwng Zoom,<br>am 10.15 o'r gloch.<br>Croeso cynnes i unrhyw un ymuno. |
| 28 Ionawr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch |
| 29 Mawrth | Dydd Gwener Groglith – oedfa'r ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 31 Mawrth | Oedfa Basg yr Ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

### Cyfarchion a diolch

Ar ddiwedd blwyddyn arall, anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau at holl ddarllenwyr 'Gair o'r Garn', ac yn arbennig at rai o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd neu sy'n wynebu cyfnod anodd yn eu bywydau. Diolch am bob anogaeth a chefnogaeth. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.
Pob dymuniad da i chi i gyd yn y Flwyddyn Newydd!

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

# Tudalen y Plant



Wyt ti'n hoffi stori'r Nadolig cyntaf?
Beth am ateb y cwestiynau a lliwio'r llun.

Pwy yw'r bobl yn y llun? ……………………………………………….

Ble gafodd y baban ei eni? ……………………………………………….

Beth oedd i'w weld yn yr awyr uwchben?…………………….

Pwy ddaeth i weld y baban? ……………………………………….

………………………………………………………………………………………

# Dathlu yng Ngofalaeth y Garn

Yr oedd Sul, 8 Hydref, yn ddiwrnod o hapusrwydd ac o ddathlu yng ngofalaeth y Garn (eglwysi’r Garn, Madog, Pen-llwyn, Capel Seion, a Rehoboth) yng ngogledd Ceredigion. Sylweddolwyd bod 2023 yn flwyddyn bwysig i dri gweinidog a fu’n gysylltiedig â’r ofalaeth: eleni, drwy gyd-ddigwyddiad hapus, yr oedd y Parchedig Ddr R. Watcyn James, gweinidog presennol yr ofalaeth, yn dathlu 40 mlynedd yn y weinidogaeth, y Parchedig Ddr John Tudno Williams, gweinidog gynt yng ngofalaeth gyfagos y Borth ac sy’n dal i wasanaethu’n ffyddlon ym mhulpudau ardal y Garn, yn dathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth, a’n cyn-weinidog, y Parchedig Wyn Rhys Morris, yn dathlu 25 mlynedd ers ei ordeinio. Nid anghofiwyd ychwaith y byddai un arall o’n cyn-weinidogion, y Parch. Elwyn Pryse, yn dathlu cynifer â 70 mlynedd ers ei ordeinio y flwyddyn nesaf. Dyna yn ddiau fwy na digon o reswm i’r eglwysi ddathlu a nodi’r cerrig milltir arbennig yn hanes y pedwar gweinidog, gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth nodedig, bron 200 mlynedd o weinidogaethu ffyddlon a gwerthfawr o gyfrif hyd eu gwasanaeth gyda’i gilydd.

Dechreuodd y dydd gydag oedfa i’r ofalaeth yng Nghapel y Garn, Bow Street, dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James. Cymerwyd rhan gan aelodau o bob un o eglwysi’r ofalaeth.

Wedi’r oedfa ymneilltuwyd i Westy’r Marine yn Aberystwyth, lle ymgynullodd dros ddeugain o aelodau’r eglwysi i fwynhau cinio blasus gyda’u gwesteion. Llywyddwyd y gweithgareddau yn ddeheuig a hwyliog gan Alwyn Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth. Cyflwynwyd pob un o’r gweinidogion yn eu tro, gyda geiriau pwrpasol a chynnes o werthfawrogiad gan Alan Wynne Jones, Alwyn Hughes, Eirian Hughes, a Roland Williams. Cyflwynwyd anrheg i’r pedwar gweinidog fel arwydd o’n gwerthfawrogiad ac i gofio’r achlysur, sef testun wedi ei fframio o soned a luniwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Vernon Jones ac a argraffwyd yn gain gan Huw Ceiriog, Llandre.



(Uchod) Y Parchedigion Watcyn James, Elwyn Pryse, John Tudno Williams ac Wyn Rhys Morris

(Isod) Ann Jones, Judith Morris, Olwen Jones, Lowri James, Delyth Davies ac Ina Tudno Williams



Yn dilyn y cyflwyniadau ymatebodd pob un o'r pedwar gweinidog yn eu tro, gan rannu rhai o'u hatgofion am eu cyfnodau yn y weinidogaeth ac yng ngwasanaeth yr ofalaeth. Cyflwynwyd blodau i'r Parchedig Judith Morris, Mrs Lowri James, a Mrs Ina Williams gan Ann Jones, Delyth Davies, ac Olwen Jones. Ymddiheurodd Mrs Bronwen Morgan, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Phenfro, am ei habsenoldeb anorfod, ond anfonodd gyfarchiad yn gwerthfawrogi'n gynnes gyfraniadau arbennig y pedwar a anrhydeddwyd.

Dyma'r soned o waith Vernon Jones a gyflwynwyd i'r pedwar gweinidog:

I'r Pedwar

Anrhydeddwn rai a droes yn anterth eu dydd
  I wynebu'r ogof heb ofni her y meini,
Ac ymbiliadau gweddi'n cryfhau eu ffydd,
  Gan dderbyn oddi fry i'w tywys y dwyfol oleuni.
Buont ddygn fugeiliaid i'w preiddiau yn nrysni'r tir,
  Erys eu bendithion dwys wedi'r ordinhadau,
A grym eu hargyhoeddiad drwy flynyddoedd hir
  O feithrin addoliad wrth allorau ein tadau a'n mamau.
Cenhadon efengyl cariad i'r ifanc a'r hen,
  Gwarcheidwaid dewr y ffydd heb laesu dwylo,
Yn taenellu'r Gair ar dir heb dorri'r ystên,
  A'u cenadwrïau taer yn cyson oleuo.
Yng ngwres y dathlu dymunwn iddynt barhad
I'w hoes o wasanaeth i'r Iesu a Duw, ein Tad.

*Vernon Jones*

*Gruffydd Aled Williams*





Y Parch Watcyn James yn annerch y ciniawyr (uchod), ac Alwyn Hughes, Cadeirydd yr Ofalaeth, a'i nodiadau manwl a hwyliog (chwith)





Alan Wynne Jones yn cyfarch y Parch Wyn Morris

Alwyn Hughes yn cyflwyno'r soned i'r Parch Ddr Watcyn James





Y Parch Ddr John Tudno Williams a Mrs Eirian Hughes

Y Parch Elwyn Pryse yn derbyn cyfarchion Roland Williams



## Gweddi ar ddechrau blwyddyn newydd

Addasiad o eiriau 'Das alte Jahr vergangen ist'; Cantata gan Bach



Addolwn di, ein Harglwydd cu,
Wrth gefnu ar y flwyddyn fu.
Rhyfeddwn at dy gariad rhad
A'th faith amynedd, nefol Dad.

O Grist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Dy Eglwys gwarchod ym mhob gwlad.
Rhag heriau a ddaw eto i'w rhan
O nertha hi, nid yw ond gwan.

Na chymer d'Air cysurlon, byw,
O'n plith, gair gwaredigol yw.
Trig yn ein plith, a chadw ni
Rhag crwydro 'mhell o'th 'wyllys di.

Am i ni'th Ysbryd Glân dristáu
Rho nerth i fedru 'difarhau.
Na chadw gyfrif, Sanctaidd frawd,
O bob cam wnaethom drwy ein rhawd.

Â gwerthoedd glân, sanctaidd i Dduw,
Dymunwn farw, neu iti fyw.
Dy wasanaethu, nefol Ri,
A byw'n dragwyddol gyda thi.

Mewn cartref llon, a mawl di-lyth
Angylion nef, cawn foli byth.
Canmolwn di, ein ffydd cryfha,
Wrth fyw neu farw, Iesu da.

*RWJ*

https://www.bach-cantatas.com/Texts/Chorale288-Eng3.htm
https://www.youtube.com/watch?v=aQx36-Fyyr4
Llun: https://unsplash.com/photos/l4HBYkURqvE

**Cynhwysir isod er gwybodaeth lythyr a anfonwyd gan ein Gweinidog at Ysgrifennydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth, 2 Tachwedd 2023**

Annwyl Athro Gruffydd Aled Williams,

Yn dilyn ein cyfarfod y bore yma a'r sgwrs garedig a gawsom, gwelaf fod angen i mi nodi yn swyddogol fy mwriad i ymddeol o'r ofalaeth yr haf nesaf. Fel y gwyddoch roeddwn wedi meddwl tan yn ddiweddar iawn y byddwn yn ymestyn tymor fy ngweinidogaeth yn yr ardal hon am gyfnod pellach. Fodd bynnag, wrth geisio canfod ffordd ymlaen deuthum i sylweddoli, os oes 'tymor' i bob rhyw orchwyl dan y nef, bod 'tymor' fy ngweinidogaeth lawn-amser innau yn dirwyn i ben.

Yn awr felly carwn eich hysbysu'n 'swyddogol' y bwriadaf ddirwyn tymor fy ngweinidogaeth yn y fro i ben ddiwedd 31 Awst 2024 (DV).

Ni fyddaf yn medru diolch ddigon am y cyfleoedd a ddaeth i'm rhan drwy EBC i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn yr ofalaeth. Bu'r blynyddoedd diwethaf hyn yng Ngofalaeth y Garn – Rehoboth, Nasareth, Dôl-y-bont, Madog, Pen-llwyn, a Chapel Seion – yn bleser amheuthun. Ni pheidiaf byth â diolch i'r cynulleidfaoedd a ganiataodd i mi ddweud yn dda am yr Arglwydd Iesu Grist yn eu plith ac a groesawodd fy ngweinidogaeth.

Ni pheidiodd yr enwad bach hwn, ei hanes, ei gyfraniad na'i bobl â bod yn annwyl iawn yn fy ngolwg. A Duw a ŵyr gymaint yr hiraethaf am gael gweld ysblander tirion Brenin Nef yn cael ei adlewyrchu yn ein cynulleidfaoedd.

Derbyniwch hyn o eiriau, ynghyd â llawer iawn o ddiolch, a dymuniadau da am ddyfodol y gwaith yn y fro.

Yng Nghrist,



Watcyn James

Daw cyfle yn y man inni ddiolch yn ffurfiol a dangos ein gwerthfawrogiad o weinidogaeth gyfoethog Watcyn yn yr ofalaeth.

Yn y cyfamser, mewn cyfarfod ar 9 Tachwedd, penderfynodd Swyddogion yr Ofalaeth yn unfrydol eu bod yn cyflwyno cais i Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro am ganiatâd i geisio olynydd iddo.

## Capel y Garn

## Ionawr

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

| | |
|---|---|
| 7 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 10 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch |
| 11 | Grŵp 'Gwreiddiau' yn ailddechrau<br>yn festri'r Garn a dros Zoom am 10.15 o'r gloch |
| 14 | Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths<br>am 10 o'r gloch |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>Ymweliad â'r Ganolfan Arloesi, Gogerddan,<br>am 6 o'r gloch – enwau i Marian erbyn 10 Ionawr |
| 21 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 28 | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch |

### Bendithio'r flwyddyn yng nghanol ansicrwydd

Mae'r byd yn byw dan fendith Duw a'r rhai cyfiawn,
ac am hynny mae ganddo ddyfodol.

Mae 'bendithio' yn golygu gosod ein dwylo ar rywbeth a dweud,
'Ar waethaf popeth, rwyt ti'n perthyn i Dduw.'

Dyma a wnawn gyda'r byd sy'n peri loes a dioddefaint poenus i ni.

Nid ydym yn troi ein cefn arno; nid ydym yn ei wadu, ei ddirmygu,
na'i gondemnio.

Yn hytrach fe'i galwn yn ôl at Dduw; rhown obaith iddo, gosodwn ein dwylo arno a dweud: 'Bydded i fendith Duw ddod arnat, bydded i Dduw dy adnewyddu; bydded i ti fod o dan ei fendith, ti, fyd a grëwyd gan Dduw, ti yr hwn sy'n perthyn i'th Greawdwr ac i'th Brynwr.'

*Dietrich Bonhoeffer at ei gyfaill Eberhard Bethge ar droad 1945*
*ychydig cyn ei ferthyru*

## Capel y Garn

## Chwefror

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

| | |
|---|---|
| 4 | Oedfa'r bore<br>am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa |
| 7 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch |
| 11 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 16 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'O Langeitho i'r Tŷ Gwyn': Deiseb Heddwch Merched Cymru 1924 – sgwrs gan Meg Elis |
| 18 | Oedfa gymun am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad yr Athro John Tudno Williams |
| 25 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |

**Mynwent y Garn**

Ar ôl cyflawni'r gwaith o fod yn Oruchwyliwr y Fynwent am 16 mlynedd, mae Vernon Jones bellach wedi ymddeol o'i ddyletswyddau. Rydym fel Swyddogion yr Eglwys yn hynod ddiolchgar i Vernon am ei waith gofalus a chydwybodol gyda threfniadaeth y fynwent am y cyfnod maith hwn.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Owain Morgan am ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith hwn yn dilyn ymddeoliad Vernon.

Ei fanylion cysyllltu yw: owain.morgan@gmail.com;
rhif ffôn: 01970 291145; symudol: 07528432234

# Capel y Garn

## Mawrth

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 3 | Oedfa Dydd Gweddi'r Byd<br>am 10 o'r gloch |
| 8 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch<br>Dathlu Gŵyl Ddewi – gyda Gwenan Gibbard |
| 10 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 17 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 24 | Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths<br>am 10 o'r gloch |
| 29 | *Dydd Gwener y Groglith*<br>oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 31 | *Sul y Pasg*<br>oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |

Dydd Gweddi'r Byd

1 Mawrth 2024

'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad'



**Capel Seion yn Dathlu 200 Mlynedd yr Achos**

Prynhawn Sul, 15 Hydref, cynhaliwyd Oedfa'r Dathlu. Bu llawer o baratoi ac edrych ymlaen at yr achlysur hwn ac yn wir ni siomwyd neb. Yn bresennol yn y gynulleidfa luosog yr oedd aelodau o eglwysi'r ofalaeth a chyn-aelodau a oedd bellach wedi symud i ardaloedd eraill ac yn falch o'r cyfle i roi tro yn ôl. Roedd Llywydd yr Henaduriaeth, Mrs Bronwen Morgan, a'r Ysgrifennydd, y Parchedig Carwyn Arthur, hefyd yn bresennol.

Lluniwyd yr oedfa gan y Parchedig Watcyn James ac roedd cyfle i'r plant, yr ieuenctid ac aelodau a ffrindiau i gymryd rhan. Cafwyd hanes cynnar yr eglwys gan y Parchedig John Tudno Williams a'r hanes diweddar gan John Gwynn Jones.

Symudwyd i Neuadd y Paith ar gyfer Te'r Dathlu, cymdeithasu, torri cacen y Dathlu – rhodd yr Ysgol Sul, a phori drwy ddogfennau cyfoethog a lluosog yn y cornel 'Dwyn i Gof'. Roedd yn brynhawn heulog, braf, a phawb yn llawenhau ac yn tystio i'r holl weithgareddau fod yn deilwng iawn o ddathliad cofiadwy yn hanes Seion.



## Daucanmlwyddiant Capel Seion

Roedd 1823 yn flwyddyn bwysig yn hanes y Methodistiaid Calfinaidd gan mai dyna pryd y luniwyd eu Cyffes Ffydd, sef datganiad diwinyddol y clymwyd eu holl eiddo wrthi am dros gan mlynedd.

Y capeli Methodist cyntaf yn yr ardal oedd Aberffrwd (1756), Gosen (1757) a Cynon – y tri wedi cau erbyn hyn. Roedd ysgol Sul yn y cylch yn gynnar iawn – Ysgol Sul Dyffryn Paith, a honno'n symud o dŷ i dŷ ac yn un gydenwadol. Roedd hynny tua 1790, meddai awdur dogfen a gefais gan John Gwynn Jones. Sonia hefyd am drafferthion cymdeithasol yr oes, megis meddwi ac offeredd. Yn 1804 cafwyd 'Diwygiad Dyffryn Paith' a ddygodd dyrfaoedd i mewn i'r ysgol Sul.

Yn y diwedd, er mwyn cael lle addas ar gyfer cynnal yr ysgol Sul ffyniannus, penderfynwyd bod yn rhaid cael adeilad cyfleus. Ei harweinydd oedd John Davies (1777–1856), Blaengors, ac aelod yn Cynon. Saer coed ydoedd, a'i weithdy yn Sgubor Ty'n Cwm ar lan afon Paith. Dywed D. J. Evans yn ei gyfrol werthfawr *Hanes Capel Seion* (1935): 'Yr oedd yn ddyn gwybodus a galluog, wedi cael addysg well na'r cyffredin, ac o gymeriad ardderchog. Cafodd dröedigaeth pan oedd yn 14 oed. Yr oedd o'i ysgwyddau'n uwch na neb o'i gyfoedion yn yr Ysgol o hyn ymlaen. Bu'n Arolygwr yr Ysgol hyd ei farw yn 1856.'

Yn 1822 cerddodd i lawr yr holl ffordd i Landudoch i weld Thomas Lloyd, perchennog hen stad Abertrinant, yr oedd fferm Pwll-clai yn rhan ohoni. Llwyddodd i gael prydles ar dir am 99 mlynedd i adeiladu capel arno ym mis Mehefin 1822, ac fe'i hagorwyd i bregethu ynddo yn Hydref 1823. Roedd y bedydd cyntaf wedi'i gofrestru ym mis Mawrth yr un flwyddyn. Ymhen pum neu chwe blynedd wedyn prynwyd y tir ynghyd â'r tyddyn Brynsion a saith erw o fferm Pwll-clai gan John Davies, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Yn ei ewyllys gadawodd y tir lle saif y capel a'r tir ar gyfer y fynwent i'r capel ei hun. Yn 1837 roedd wedi rhoi prydles ar y capel am dair mil o flynyddoedd.

Edrydd D. J. Evans yr hanesyn hwn amdano wedi iddo brynu'r tyddyn a thir y capel: 'Marsïandwr coed ydoedd yr adeg honno. Prynasai allt o goed yn agos i Rhaeadr Gwy. Aeth y fasnach goed i lawr a daeth yn amser talu am y tir. Mawr oedd ei drallod ond daeth ymwared annisgwyl. Digwyddodd i Oruchwyliwr yr East India Company ddod heibio i chwilio am goed i wneuthur llongau. Gwerthodd John Davies yr allt iddo a chael elw digonol i dalu amdano ac am y tyddyn a thir y Capel. Credai ef mai cyfryngiad uniongyrchol Rhagluniaeth Duw ydoedd hyn.'

Y bugail cyntaf oedd Evan Evans, Aber-nant Noyadd, Aber-ffrwd, a rhannai Seion daith Sabothol ag Aberffrwd am amser.




Cacen y dathlu

…. a’r gymdeithas felys o gwmpas y byrddau yn Neuadd y Paith



Fe'i hordeiniwyd yn Llangeitho yn 1822, a bu'n gweinidogaethu o 1823 hyd 1845. Wedyn daeth Thomas Edwards, Trering, i gyflawni'r gwaith o 1845 hyd 1860. Roedd ef yn un o efrydwyr cyntaf Coleg y Bala. Fe'i dilynwyd gan Dafydd Morgan (1868–86), gŵr lleol arall. Y pedwerydd bugail a fu yma oedd Isaac Davies (1886–90), tad yr Athro W. D. ('Pechadur') Davies, gynt o'r Coleg Diwinyddol.

Fe'i dilynwyd ef gan Richard Humphrey Edwards (1891–1915), ac o dano ef y magwyd D. J. Evans i'r weinidogaeth, ac mae ef yn talu teyrnged uchel iawn iddo: 'Yr oedd yn ŵr o alluoedd meddyliol cryf, yn ddarllenwr eang. Yr oedd ganddo lyfrgell wych, a dawn i adnabod llyfr. Yr oedd ei dŷ, megis siop lyfrau yn llawn o'r gwaelod i fyny, ar hyd grisiau'r llofft bob ochr a dim ond llwybr i gerdded rhyngddynt. Hen lanc ydoedd, ac yn byw wrtho'i hun.'

Diau mai bugail mwyaf adnabyddus a dylanwadol Seion oedd y Parchedig David John Evans a fu'n gwasanaethu'r eglwys ynghyd â Chapel Pisga o 1916 hyd 1961, 45 mlynedd i gyd. Brodor o'r ardal ydoedd a hon fu ei unig ofalaeth. Mewn pwt o hunangofiant a geir yn y Llyfrgell Genedlaethol ac a ddyfynnir gan y Parch. T. J. Davies yn y gyfrol *Dal Ati i Herio'r Byd* (gol. D. Ben Rees, 1986) dywed: 'Pan oeddwn tua 16 oed daeth rhywbeth drosof neu ynof am roddi fy hun i'r Iesu ac i fynd i'r weinidogaeth'.

Fe'i ganed yn un o efeilliaid yn Fronfelen. Saer maen ar Stad Nanteos oedd ei dad, a bu yntau'n brentis saer maen nes ei fod yn ugain oed, pan aeth i Ysgol Ramadeg enwog Evan Phillips yng Nghastellnewydd Emlyn. Adroddodd hanes ei gyfnod yno a'n hatgoffa mai cyd-ddisgybl iddo oedd Evan Roberts, y diwygiwr.

Wedi derbyn yr addysg gymwys yno gallai ddechrau fel efrydydd yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, gan ddod dan ddylanwad yr ysgolhaig Almaenig Hermann Ethé, a dysgu Hebraeg oddi tano. Dyma'r athro amryddawn a erlidwyd a'i yrru o'r dref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf – pennod dywyll iawn yn hanes y dref a'r coleg, a siomodd D. J. Evans yn fawr iawn oherwydd hyn. Ar ôl cwblhau dwy radd – B.A. a B.D. (yr ail yn y Coleg Diwinyddol gerllaw), ymatebodd i alwad ei fameglwys i'w bugeilio.

Cyhoeddodd gyfrol a ystyrir yn glasur o'i fath ar hanes bro ei febyd, *Hanes Capel Seion*. Dywed iddo ddechrau casglu cynnwys y gyfrol adeg dathlu canmlwyddiant y capel yn 1923.

Daeth i amlygrwydd tu hwnt i'w fro enedigol drwy ei werslyfr i ieuenctid 13–21 oed, *Prif Gymeriadau'r Hen Destament* (1926).

Gwrthododd golygydd cyffredinol y Cyfundeb ei gyhoeddi oherwydd ei fod yn cynnwys yr hyn a dybid oedd yn agwedd rhy feirniadol o rai o'r cymeriadau hyn. *Cause célèbre* yn ddiau yn hanes y Corff oedd y penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r llawlyfr hwn. Fe'i hysgrifennwyd ar gais Pwyllgor Undeb Ysgolion Sabothol y Methodistiaid Calfinaidd a derbyniodd gymeradwyaeth Golygydd y Gwerslyfrau, yr Athro W. Jenkyn Jones, Athro Athroniaeth Aberystwyth, ond mynnai'r Golygydd Cyffredinol, y Parchedig John Owen, bod yn rhaid gwneud newidiadau ynddo. Ond gwrthododd yr awdur â chydymffurfio â'r cais hwn am 'nad oeddys o'r farn y gallesid derbyn y cwbl heb i hynny amharu ei werth yn fawr i ddeiliaid ieuainc yr Ysgol Sul'.

Ymddengys mai am geisio amddiffyn ieuenctid yr ysgolion Sul rhag cael eu hanesmwytho gan feirniadaeth Feiblaidd yr oedd y Golygydd Cyffredinol. Ond mae'r awdur yn mynegi ei argyhoeddiad na ddylid celu'r wyddor gymharol newydd hon rhagddynt: 'Yr ydys o'r farn hefyd mai yn yr oed yma y dylid cydnabyddu'r ieuanc â'r safbwynt hwn o ddysgu'r Hen Destament, a hynny trwy gyfrwng yr Ysgol Sul. Ei chenhadaeth briod hi ydyw anturio ac arloesi'r ffordd ym myd gwirionedd. Amcan pennaf y llyfr hwn ydyw deffro'r meddwl a rhoddi cyfeiriad i astudiaeth bellach o'r gwir, ac arwain yr oes ieuanc i'w werthfawrogi, ac i gydnabod delfrydau a safon bywyd yr Iesu o Nasareth.'

Ar sail gohebiaeth yn ymwneud â'r helynt a achosodd ei werslyfr yn 1926 ac a ddiogelwyd gan John Gwynn Jones, wyth mlynedd yn ôl cyhoeddais ysgrif yn adrodd hanes yr ymrafael a fu rhyngddo a rhai o arweinwyr y Corff. Dengys yn glir nad oedd ef, ac yntau'n gymharol ifanc yn y weinidog aeth ar y pryd, yn barod i ildio dim i'w gofynion iddo newid dipyn ar yr hyn a ysgrifennodd yn wreiddiol.

Yn y diwedd aeth ymlaen i gyhoeddi'r gwerslyfr ar ei liwt ei hun a bu galw mawr amdano. Dylid ychwanegu hefyd ei fod wedi derbyn cefnogaeth yn y Cyfarfod Misol lleol a hefyd gan ysgolheigion blaengar yn y Cyfundeb fel D. Francis Roberts, y Bala.

Mae'n amlwg i'r holl fater ddod i sylw'r cyfryngau ar y pryd a chafwyd penawdau ymfflamychol mewn papurau newyddion megis hwn y *South Wales News*. ar 1 Ebrill 1926:

> 'Too Modernist.'
> Banned Text Book.
> Corff Sensation.
> An Unprecedented Position.

Enynnodd yr holl gyhoeddusrwydd hwn ddiddordeb mawr ar draws Cymru yng ngwerslyfr DJE, a daeth ceisiadau oddi wrth lyfrwerthwyr am gopïau ohono. Wele'r hysbyseb a ymddangosodd:

Ar fin cael ei gyhoeddi.

GWERSLYFR

Maes Llafur y Dosbarthiadau Canol

"Prif Gymeriadau'r Hen Destament."

Gan y PARCH D. J. EVANS, B.A., B.D., CAPEL SEION.

(yr hwn a benodwyd gan Gymanfa Gyffredinol y M.C. i baratoi'r Gwerslyfr). Anfoner archebion i Swyddfa'r Cymro,Dolgellau. Pris 9c. Telerau arbennig i Ysgolion Sabothol. Na chymysged neb yr Esboniad hwn ag unrhyw Esboniad arall ar y Maes Llafur. Gofynnwch am "Esboniad y Parch.D.J.Evans", a mynnwch ei gael.

Mewn llythyr at DJE oddi wrth y cyhoeddwr, E. W. Evans, Dolgellau, 28 Mai 1926, dywedir: 'Y mae'r argraffiad cyntaf yn brysur ddarfod. Ofnaf y gwerthir yr oll cyn y gallwn gael yr ail-argraffiad allan.' Rhaid, felly, oedd paratoi ail argraffiad o'r llawlyfr.

Gellir canfod tystiolaeth o ddylanwad arhosol DJE ar genedlaethau o bobl ifanc, megis T. J. Davies a'r Arglwydd John Morris. Dyma a ysgrifennodd yr Arglwydd Morris amdano mewn llythyr ataf: 'Roedd D. J. Evans yn ddyn mawr ac yn weinidog da ac yn rhoddi cryn gysur i mam pan yr alwai yn aml'.

Yn Gymro i'r carn, cefnogai sefydlu Urdd Gobaith Cymru Fach, fel y'i gelwid, yn yr ardal o'r cychwyn; roedd yn selog dros Eisteddfod Seion: gwelai fod yr iaith, y diwylliant a'r capel, y cyfan yn un iddo, meddai T. J. Davies. Ychwanegai: 'Er ei fod yn flaengar iawn ei syniadau ym mhob maes – diwinyddiaeth, gwleidyddiaeth, Cymru a'r Gymraeg a heddychiaeth – yn ŵr o flaen ei oes, os bu un erioed, eto i gyd, un tawel, swil, anymwthgar ydoedd. Ei weld a wnaech chwi, nid ei glywed. Ond yn cuddio o dan y swildod yr oedd mynyddoedd o gadernid di-sigl, ac os oedd ef yn credu ei fod yn ymladd o blaid y gwir, yna nid oedd bwrw arfau yn y rhyfel hwnnw. Addysgu oedd pregethu iddo, magu cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth yng ngwirioneddau'r Gair, a'r unig ffordd i gyflawni hynny oedd trwy Ysgol Sul a dosbarth a chwrdd plant.

'Herio'r byd oedd ei genhadaeth: herio syniadau Beiblaidd henffasiwn, herio Cymreictod pwdr, herio Cyfundeb ceidwadol, herio militariaeth imperialaidd, herio'r cwbl yn dawel a di-stŵr, ond herio serch hynny am fod ei wreiddiau yn gadarn yn nysgeidiaeth y Testament Newydd.'

Bu farw 1 Mai 1965, a chynhaliwyd Gwasanaeth Coffa iddo yng Nghapel Seion ar 7 Mai. Dadorchuddiwyd cofeb iddo yn y capel ar 24 Mehefin 2012, gan ein haelod hynaf ar y pryd, Mrs Megan Lloyd, Tyncoed, gyda'r cwpled addas hwn arno gan Vernon Jones, yntau â chysylltiad teuluol â'r achos:

Ei fywyd a'i fyd wrth fodd
Ei Waredwr lle troediodd.

*John Tudno Williams*

## Atgofion am Gapel Seion yn ystod y 1950au a'r 1960au

Roedd côr ein teulu o dan gloc y capel, a minnau'n eistedd rhwng fy rhieni, ac yn gorfod bod yn dawel iawn yn ystod yr oedfa. Doedd dim siarad na symud o gwmpas i fod, nac yn wir dim edrych yn ôl o'r sedd. Byddai'r bugail neu'r pregethwr yn dod i mewn i'r capel a cherdded i lawr yr eil gyda'r blaenoriaid yn ei ddilyn i eistedd yn y sêt fawr. Cyn iddynt ddod i mewn i'r capel, byddent bob amser yn ymgynnull yn ystafell y pregethwr o fewn y Tŷ Capel. Y Parchedig D. J. Evans, B.A., B.D., oedd y bugail a gofiaf gyntaf yn ystod fy mhlentyndod. Roedd yn gwisgo'n smart iawn bob amser, ac yn hoff o wisgo esgidiau swed, rhywbeth na fyddai dynion eraill yr ardal yn ei wneud ar y pryd. Roedd hefyd yn berchen ar gar trawiadol iawn, sef Ford Zephyr *two tone* o liw hufen ac oren golau! Byddai'r rhan fwyaf o drigolion y pentref yn gyrru ceir tywyll du, hen ffasiwn.

Safai pedair coeden ywen drwchus eu dail ar y lawnt gul uwchben wal y ffordd, a rhwng y ddwy goeden olaf ger y mynediad pellaf byddai'r dynion yn cwrdd i sgwrsio cyn mynd i mewn i oedfa'r nos yn ystod misoedd yr haf. Byddai amseriad yr oedfa hwyr yn symud i 6.30y.h. yn yr haf er mwyn galluogi'r ffermwyr i wneud y godro cyn cyrraedd y capel.

Dechreuais fynd i'r ysgol Sul yn bedair neu bump oed, ac roedd tri dosbarth: dosbarth y plant ieuengaf, dosbarth y plant hŷn, a dosbarth yr oedolion. Dysgu'r 'Rhodd Mam' oedd un o'r pethau cyntaf a gofiaf ei wneud yno, gyda'r athrawes ddiwyd Miss Annie Jones, Brynseion. Ac os oedd unrhyw waith i'r plant ei wneud ar gyfer oedfa neu achlysur arbennig, byddai Miss Jones yn ysgrifennu copïau i bob plentyn, a phawb yn gorfod dysgu'r gwaith ar y cof.

Byddai'r Cwrdd Diolchgarwch bob amser yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau ysgol hanner tymor neu 'wythnos tatws' ddiwedd Hydref, ac ar y dydd Mercher fel yr arfer. Trefnid cwrdd plant yn y bore, cyfarfod gweddi yn y prynhawn, a'r Oedfa Ddiolchgarwch yn yr hwyr.

Byddai'n rhaid i'r plant gael sawl practis cyn y cyfarfod yma a hynny fel rheol ar nos Wener. Cofiaf yn glir, a minnau yn fy arddegau, yr ymarfer yn cael ei gynnal i fyny yn y Llofft Fach a Mrs Howells, Tŷ Capel, wedi gwneud tân agored i'n cadw yn gynnes. Pan ddaethom allan i'r noson dywyll roedd pawb yn ddistaw ac yn drist iawn gan fod newyddion garw wedi cyrraedd am drychineb erchyll Aber-fan a ddigwyddodd fore Gwener, 21 Hydref 1966. Diwrnod a gofir am resymau annifyr.

Ar ddydd Gwener y Groglith byddai'n rhaid mynd i'r Gymanfa Ganu yn Aberystwyth. Hefyd cofiaf gymryd rhan yng Ngŵyl yr Ysgolion Sul a gynhelid yn festri Seilo bob mis Mai, ac weithiau dderbyn yno dystysgrif neu wobr ar ôl cael canlyniadau arholiad ysgrifenedig yr ysgol Sul (neu arholiad llafaredig i'r plant iau). Yn ystod misoedd oer y gaeaf rhaid oedd mynd o amgylch y pentref hefo blwch casglu'r Genhadaeth Dramor. Roedd gan blant pob teulu flwch ac ardal i wneud y casgliad, a chredaf mai tua diwedd y flwyddyn fyddai'r blychau'n cael eu hagor.

Wrth edrych yn ôl, rhaid nodi na ddaeth trydan i ardal Capel Seion nes tua 1957/1958, a chofiaf y lampau paraffîn hardd oedd yn hongian o nenfwd y capel. Mae'r ddwy lamp bob ochr i'r pulpud a'r lamp yng nghefn y capel wedi cael eu newid o baraffîn i drydan ac felly'n wreiddiol i'r adeilad. Leino brown orchuddiai'r ddwy eil a'r allor, a braidd yn swnllyd oedd cerdded arnynt. Cofiaf y bu cryn dipyn o drafod ar y pryd pan ddarganfuwyd bod angen gwariant a gwaith adnewyddu ar y ddwy golofn a safai bob ochr i ffrynt y capel, ond yn y diwedd penderfynwyd eu dymchwel. Hefyd bu penderfyniad i dynnu lawr y pedair coeden ywen a safai o flaen mynediad y capel oherwydd eu bod nhw'n gwanhau wal y ffordd.

Dyna ychydig o fy atgofion am Seion yng nghanol yr 20fed ganrif. A ninnau erbyn hyn yn yr 21ain ganrif, da o beth yw bod Seion yn dal â'r drysau yn agored gyda bugail diwyd, modern ac aelodau ffyddlon.

*Ôl-nodyn*: Mae hanes fy nghyndeidiau'n mynd 'nôl i gychwyn yr Achos yn Seion. Roedd John Jones, Nantyrhydd (ac wedyn Tyncoed), yn un o flaenoriaid cynharaf y capel (o ail do rhestr y blaenoriaid), a bu Richard, ei fab, a John Morgan Jones, ei ŵyr, yn flaenoriaid y gân yn Seion (noder bod y tri yma'n wehyddion, a'r gwehydd-dy yn Tyncoed). Bu John Morgan Jones yn flaenor y gân am dros 40 mlynedd. Roedd Jane (fy mam-gu), sef merch J. M. Jones, yn chwarae'r organ yn Seion, tra oedd ei phriod, Joseph Lloyd (fy nhad-cu), yn flaenor. Dau flaenor o ochr arall y teulu ydoedd David Benjamin, Tŷ gwyn, a'i fab, David Benjamin, Nantygleisiaid a Rhoserchan Fawr.

*Susan Lloyd Hughes*

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

Nos Wener, 20 Hydref, cafwyd noson agoriadol arbennig i dymor y Gymdeithas eleni. Er mai camu i'r bwlch ar y funud olaf wnaeth Llinos Dafis, caflwyd cyflwyniad eithriadol o ddiddorol ganddi ar y testun 'Byd Dai'. Roedd 'Dai' yn dipyn o ddirgelwch i'r gynulleidfa, ond daeth y cyfan yn amlwg wrth i Llinos gyflwyno cerdd gan y prifardd J. J. Williams, a aned yn Nhaigwynion ac a ddaeth yn weinidog adnabyddus ac yn archdderwydd.



Defnyddiodd Llinos y gerdd yn sail i'n hatgoffa am galedi bywydau'r glowyr ym mhyllau glo'r de ac yn arbennig am galedwaith y menywod yn ceisio cadw tŷ a magu plant mewn amgylchiadau heriol.

Cyflwynwyd Llinos gan Llio James, Cadeirydd y Gymdeithas Lenyddol, a diolchwyd iddi gan y Parch. Wyn Morris; paratowyd paned i bawb gan Mrs Margaret Rees.



'Dod i nabod Gruffydd Aled' oedd teitl yr ail gyfarfod, a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd. Croesawodd Llio James, cadeirydd y Gymdeithas, Dr Bleddyn Huws a Dr T. Robin Chapman, golygyddion y gyfrol deyrnged i'r Athro Gruffydd Aled Williams a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan gwmni Atebol, sef *Penrhaith ein heniaith ni*. Gyda'u holi pwrpasol, cafwyd cip ar gefndir a gyrfa ddisglair yr Athro – ei fagwraeth ym mhentrefi Dinmael a Glyndyfrdwy a'i gyfnod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor. Mentro draw i Ddulyn i ddarlithio fu ei hanes a chyfarfod Eimear yno, a ddaeth yn gymar oes iddo. Yn ôl wedyn yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ym Mangor, cyn ei benodi'n Athro ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae rhychwant ei ddiddordebau a'i waith ysgolheigaidd yn eang, ac ar ôl ymddeol mae wedi ymchwilio'n fanwl i ddyddiau olaf Owain Glyndŵr, ymhlith pynciau niferus eraill.

Yn dilyn yr holi, darllenodd Dr Huw Meirion Edwards ei gywydd cyfarch i'r Athro, a chyflwynodd Iestyn Hughes lun wedi'i fframio iddo o Fryn Owain Glyndŵr yng Nglyndyfrdwy. Talwyd y diolchiadau gan Glyn Saunders Jones a pharatowyd paned gan Bet Evans a Gweneira Williams.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau gan Carys Briddon i festri capel Rehoboth, Tre Taliesin, brynhawn dydd Mawrth, 12 Medi, ar gychwyn tymor newydd o'r Gymdeithas. Eglurodd fod Eiriona Metcalfe yn dymuno rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl deng mlynedd o wasanaeth, ond hyfryd oedd nodi fod Meinir Fleming wedi cytuno i gymryd ei lle. Meinir Wyn Edwards, Llandre, oedd y wraig wadd am y prynhawn, a bu'n sôn sut y bu iddi hi a'i merch, Efa, benderfynu sefydlu'r cylchgrawn *Cara* yn 2019. Gan nad oedd cylchgrawn Cymraeg arall ar gael i ferched, fe welwyd bod bwlch yn y farchnad. Cyn ei lansio, bu tipyn o waith trefnu a thrafod nifer o bwyntiau cyn penderfynu ar y ffurf derfynol. Mae'n gylchgrawn sy'n rhoi llais i fenywod Cymru gyda cholofnwyr a chyfranwyr rheolaidd, â thudalennau lliwgar yn llawn erthyglau ar destunau amrywiol. Mae *Cara*'n cael ei gyhoeddi dair gwaith y flwyddyn, ac mae'n dda medru dweud i'r fenter fod yn llwyddiant. Diolchwyd i Meinir am ddod atom i sôn am y fenter a sicrhaodd fod merched Cymru erbyn hyn yn medru mwynhau cylchgrawn mor safonol yn eu mamiaith.

Estynnwyd croeso i'r aelodau i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 10 Hydref, gan Meinir Fleming. Claire Fowler, Tal-y-bont, oedd y wraig wadd, a soniodd am ei chwmni o'r enw Jones & Ginger a'r modd mae'n ailgylchu gwahanol bethau er mwyn rhoi ail fywyd iddynt. Daeth â rhai eitemau gyda hi i ddangos sut mae wedi ailddefnyddio gwahanol ddeunyddiau i greu nwyddau newydd allan ohonynt. Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Non Griffiths.

Carys Briddon fu'n llywyddu yn y cyfarfod brynhawn Mawrth, 14 Tachwedd, ac estynnwyd croeso i'r aelodau a'r gŵr gwadd am y prynhawn, sef Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Testun ei sgwrs oedd 'Cofio Ieuan Gwyllt', a bu'n sôn am fywyd diddorol a gweithgar y cerddor Cymreig John Roberts (1822−1877), a anwyd yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion. Defnyddiai'r enw barddol Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr pan oedd yn cyfansoddi barddoniaeth yn ifanc, ond talfyrwyd yr enw i Ieuan Gwyllt yn ddiweddarach.

Yn 1859 cynhyrchodd *Lyfr Tonau Cynulleidfaol*, ac wedi ei gyhoeddi dechreuwyd ar gyfnod newydd o ganu emynau cynulleidfaol Cymraeg. Yn y 1870au, teithiodd yn eang ledled Cymru, gan ddarlithio ar gerddoriaeth gynulleidfaol. Yn 1864 lluniodd argraffiad Tonic Sol-ffa o'i *Lyfr Tonau Cynulleidfaol* a sefydlodd *Cerddor y Tonic Solffa* yn 1869. Yn 1865 daeth yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanberis, ac yno y bu hyd iddo ymddeol i Lanfaglan, ger Caernarfon, yn 1868. Yn 1874 cyhoeddodd drefniant yn Gymraeg i *Sŵn y Jiwbilî* o emynau a thonau Sankey a Moody. Bu farw John Roberts yng Nghaernarfon ar 14 Mai 1877 a'i gladdu ym mynwent Caeathro, ger Caernarfon. Diolchwyd i Dr Griffiths am hanes difyr Ieuan Gwyllt, a mwynhawyd y te a baratowyd gan Myfanwy Rowlands.

*Carys Briddon*



Pnawn Mercher, 6 Rhagfyr, aeth Chwiorydd y Garn draw i Grefftau Pennau i fwynhau te prynhawn – a chafwyd sgwrs fywiog a seibiant hyfryd o'r holl waith paratoi ar gyfer yr Ŵyl!

Yn y flwyddyn newydd, bydden nhw'n falch o dderbyn unrhyw stampiau oddi ar amlenni eich cardiau Nadolig – er budd elusen. Cofiwch adael ymyl o tua 1cm o amgylch y stampiau. Diolch am bob cyfraniad.



Bore Sadwrn, 2 Rhagfyr, er gwaetha'r hin rewllyd y tu allan, roedd croeso cynnes yn festri'r Garn ym More Coffi'r Adfent a drefnwyd gan y Chwiorydd. Cafwyd bore o sgwrsio hwyliog dros baned a mins pei, yn ogystal â cheisio datrys y cliwiau cryptig i'r cwis darluniadol blynyddol oedd wedi'i baratoi gan Iestyn Hughes.

Codi arian tuag at Stordy'r Jiwbilî, sef y banc bwyd lleol sydd wedi'i leoli yn Eglwys y Santes Anne, Penparcau, oedd pwrpas y bore coffi. Mae'r angen am gefnogaeth i'r banc bwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn hon, ac roedd yr elusen yn ddiolchgar iawn am y rhodd o £732 a gyflwynwyd iddi gan Chwiorydd y Garn.

Mewn llythyr o ddiolch, dywedodd Catherine Griffiths, ar ran yr elusen: 'Yr wythnos ddiwethaf [wythnos olaf Tachwedd] oedd yr wythnos fwyaf prysur yn y banc bwyd erioed, gyda 203 o bobl yn gofyn am help, gan gynnwys 89 o blant. Mae mwy o bobl yn dod nawr sydd mewn gwaith, ond dydy eu cyflogau ddim yn ddigon i bara trwy'r mis cyfan gyda chostau ynni a bwyd yn codi … mae eich rhodd chi yn gallu bwydo pedwar ar hugain o bobl am tua wythnos.'

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Mawrth** i'r golygydd:

Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com